| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **25 MEDI 2025** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2024/25** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON - JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a gyda Chynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2024/25 (Atodiad 10 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Gorffennaf 2025 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ar 17 Gorffennaf 2025. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn heb sylw pellach.

## Rhesymau

Yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2021 a Chôd Darbodus CIPFA 2021 (y Côd), mae'n ofynnol i gorff y Cyngor Sy'n gyfrifol am oruchwylio swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor dderbyn diweddariad chwarterol ar berfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a'i gydymffurfiaeth â'r cyfyngiadau sydd wedi eu nodi yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad economaidd, gosod allan y sefyllfa bresennol ynglŷn â benthyca, amlinellu'r perfformiad buddsoddi ac yn mesur sefyllfa bresennol y Cyngor yn erbyn y dangosyddion perfformiad a osodir allan yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol. Mae unrhyw doriadau o'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys hefyd yn cael eu nodi yn yr adroddiad.

## Casgliad

Mae sefyllfa benthyca'r Cyngor yn parhau heb ei newid, mae perfformiad buddsoddi yn dda, gyda dychweliadau buddsoddi yn rhagori ar y gyllideb, mae'r Cyngor yn parhau o fewn y cyfyngiadau sydd wedi eu gosod gan Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol nid oedd unrhyw dorriadau o'r Strategaethyn adroddiadwy.

## Argymhelliad

**Gofynnir i'r Cyngor adolygu a cymerdwto'r adroddiad fael y'i cyflwynwyd. Mae copi o'r adroddiad wedi'i atodi fel Atodiad A.**

**ATODIAD A**

## 1. CYDYMFFURFIAETH Â GOFYNION ADRODD

**1.1.** Yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus), mae'n rhaid cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn ystod y flwyddyn. Mae manylion yr adroddiadau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Crynodeb o'r Adroddiadau Rheoli'r Trysorlys a gyflwynwyd i'r Pwyllgorau a'r Cyngor llawn**

| Adroddiad | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Y Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|
| Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol 2024/25 | 8 Chwefror 2024 | 20 Chwefror 2024 | 7 Mawrth 2024 |
| Adroddiad Diweddaru ar y Trysorlys Chwarter 1 2024/25 | Wedi'i Ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio - Cyhoeddwyd 21 Ionawr 2025 | | |
| Adroddiad Diweddaru ar y Trysorlys Canol Blwyddyn 2024/25 | 11 Chwefror 2025 | 18 Chwefror 2025 | 6 Mawrth 2025 |
| Adroddiad Diweddaru ar y Trysorlys Chwarter 3 2024/25 | Wedi'i Ddirprwyo i'r Deilydd Portffolio - Cyhoeddwyd 10 Mawrth 2025 | | |
| Adroddiad Adolygu Blynyddol 2024/25 | 16 Gorffennaf 2025 | 17 Gorffennaf 2025 | 25 Medi 2025 |

## 2. ADOLYGIAD O 2024/25 - FFACTORAU ALLANOL

**2.1.** Mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ond sy'n cael effaith mawr ar benderfyniadau'r Cyngor o ran benthyca a buddsoddi.

### 2.2. Cyfraddau Llog

Mae cyfraddau llog ar yr adeg y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau yn ymwneud â rheoli'r trysorlys ac fe all effeithio ar p'un a yw'r Cyngor yn benthyca'n allanol, hyd unrhyw fenthyca, pryd y bydd y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddiadau tymor hwy ac ymhle mae'r Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben.

Ar ddechrau 2024/25, roedd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 5.25% ond, wrth i chwyddiant ostwng ac wrth i'r economi arafu, cafodd y gyfradd ei gostwng i 5.00% ym mis Awst 2024, 4.75% ym mis Tachwedd 2024 a 4.5% ym mis Chwefror 2025.

Mae disgwyl i gyfraddau barhau i ostwng yn 2025, a chafwyd gostyngiad i 4.25 % ym mis Mai 2025. Disgwylir 2 neu 3 ostyngiad pellach yn 2025, a rhagwelir y bydd y cyfraddau tua 3.5% erbyn diwedd 2025.

### 2.3. Economi'r DU

Mae economi'r DU yn dal i weithredu yn erbyn cefndir o ddigwyddiadau byd-eang mawr sy'n effeithio ar yr economi byd-eang. Maent yn cynnwys y rhyfel parhaus yn Wcráin a'r angen i wario mwy ar amddiffyn, newid Arlywydd yn yr Unol Daleithiau, yr Unol Daleithiau'n cyflwyno tariffau uwch a'r perygl y gall economi'r byd arafu o ganlyniad ac effaith hynny ar brisiau olew ac ynni.

Yn y DU, bu newid yn y llywodraeth genedlaethol, ac mae twf yr economi yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur newydd, ynghyd â cheisio cyllido gwasanaethau cyhoeddus heb gynyddu treth incwm, TAW neu yswiriant gwladol cyflogai a heb gynyddu benthyca allanol. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu set newydd o reolau cyllidol sy'n caniatáu cynyddu cyllidebau ar ddechrau'r Senedd newydd, ond bydd rhaid eu cwtogi yn nes ymlaen.

Rhagwelir y bydd y gwariant ychwanegol yn 2025/26 a 2026/27 yn ysgogi twf yn yr economi, a fydd yn cynyddu refeniw treth yn y dyfodol. Bydd hyn, ynghyd â lleihad yn rhai o gyllidebau'r Llywodraeth, yn enwedig y gyllideb les, yn galluogi'r Llywodraeth i gyrraedd ei dargedau cyllidol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi llawer o hyblygrwydd i'r Llywodraeth ac mae'r risg o beidio â chyrraedd y targedu cyllidol hyn yn uchel.

Bydd y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn sicrhau refeniw ychwanegol ond fe all effeithio ar dwf a bydd yn cynyddu costau'r sector cyhoeddus, a fydd yn lleihau effaith net y newid.

Roedd twf economaidd y DU yn dal i fod yn isel iawn yn ystod 2024/25 gyda dim twf yn ystod y 2 chwarter cyntaf, twf o 0.4% yn y trydydd chwarter a thwf o 0.5% yn y chwarter olaf. Rhagwelir y bydd twf yn aros rhwng 1% a 2% yn 2025 a hyd at 2028.

Roedd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 3.2% ar ddechrau 2024/25, ond syrthiodd yn ystod flwyddyn ac, erbyn mis Medi 2024, roedd wedi gostwng i 1.7%, cyn codi i 3% ym mis Ionawr 2025, yn bennaf o ganlyniad i brisiau ynni cynyddol, ac yna syrthio eto i 2.6% ym mis Mawrth 2025. Rhagwelir y bydd yn codi eto yn ystod 2025, ac y bydd wedi cyrraedd uchafbwynt o 3.5% erbyn diwedd yr haf, cyn gostwng yn nes at darged Banc Lloegr, sef 2.0%, a rhagwelir y bydd yn 2.7% erbyn diwedd 2025/26.

## 3. GWARIANT CYFALAF 2024/25

**3.1.** Mae gwariant cyfalaf yn cael effaith sylweddol ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys y Cyngor. Gellir cyllido gwariant cyfalaf naill ai:-

- ar unwaith drwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- drwy fenthyca: Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

**3.2.** Mae Tabl 2 isod yn cymharu'r gwariant cyfalaf drafft ar gyfer 2024/25 gyda'r cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig:-

**Tabl 2**
**Gwariant Cyfalaf 2024/25**

| | Cyllideb Wreiddiol 2024/25 £'m | Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 £'m | 2024/25 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 13.8 | 48.7 | 37.2 |
| CRT | 30.0 | 29.6 | 27.5 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **43.8** | **78.3** | **64.7** |
| | | | |
| **Cyllidwyd Gan** | | | |
| Grantiau'r Gronfa Gyffredinol, Arian wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw | 9.0 | 40.4 | 30.4 |
| Grantiau CRT a Chyfraniadau Refeniw | 29.1 | 26.0 | 27.5 |
| Benthyciadau'r Gronfa Gyffredinol | 4.8 | 8.0 | 6.8 |
| Benthyciadau'r CRT | 0.9 | 3.9 | 0.0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **43.8** | **78.3** | **64.7** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant a Gyllidwyd trwy Fenthyca** | **5.7** | **11.9** | **6.8** |

**3.3.** Mae'r prif amrywiadau o ran gwariant cyfalaf (dros £500k) wedi eu nodi yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Amrywiadau Gwariant Cyfalaf 2024/25**

| Cynllun | Tanwariant £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Gwelliannau Cyfalaf CRT | 2,104 | Am fanylion pellach ar wariant cyfalaf y CRT, gweler adroddiad Alldro'r CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor yma ar 17 Gorffennaf 2025. |
| Adnewyddu Ysgolion ac Adeiladau Cyngor, yn cynnwys addasiadau ar gyfer yr anabl | 850 | Oherwydd dyfarnwyd cyllid grant ychwanegol yn y flwyddyn, roedd y tanwariant yma wedi'i ddisgwyl. Defnyddiwyd Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gyllido gwaith i alluogi Mynediad i'r Anabl yn Adeiladau Addysg ar gyfer 2024/25. Disgwylir bydd y pwysau ar y gyllideb yma yn cynyddu yn y dyfodol pan fydd canlyniadau archwiliadau mynediad yn darparu darlun mwy cyflawn o'r gwaith sydd ei angen. Canlyniad y dyfarniad Grant Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw 2024/25 oedd tanwariant yng nghyllideb cyfalaf adeiladau Addysg. Mae penderfyniad ymwybodol i beidio â cheisio gwthio'r gwariant allan ar frys ac, yn hytrach, ei ddisodli yn erbyn gwariant ymrwymedig a'i gario drosodd i raglen fesuredig ar gyfer 2025/26. |

| Cynllun | Tanwariant £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 734 | Cafwyd oedi sylweddol o fewn y rhaglen, yn benodol mewn perthynas â chaffael a rhai prosiectau penodol nad ydynt yn mynd rhagddynt. Ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli a bydd cyllideb newydd ar gyfer 2025/26 yn cael ei dyrannu. |
| Rhaglen Adfywio Llywodraeth DU yng Nghaergybi | 4,982 | Oherwydd oedi sylweddol o fewn y broses o gyflawni'r rhaglen yn gyffredinol, roedd tanwariant sylweddol yn debygol. Fodd bynnag, mae estyniad wedi'i wneud i fis Medi 2025 (gyda'r tebygolrwydd o estyniad pellach) ac, felly, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli. |
| Rhaglen Amnewid Gwres Carbon Isel Adeiladau'r Cyngor | 895 | Y ffi cadw yw £522k o'r tanwariant yma yr ydym wedi ei hawlio ar y prosiectau hyd yma. Caiff y rhain eu dal a'u rhyddhau pan fo'r prosiectau wedi eu cwblhau'n llwyddiannus. Mae £373k wedi codi o gais am amrywiad i Lywodraeth Cymru ar draws dau o'r prosiectau ar gyfer gwaith na ellid ei gwblhau o fewn 2024/25, a chytunwyd i'w gario drosodd i'w gwblhau yn 2025/26. |
| Canolfan Glanhwfa | 600 | Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect hwn wedi dechrau a bydd yn cymryd 12 mis, felly, bydd y cyllid yn cael ei rannu rhwng 2 flynedd ariannol. Bydd y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei wario yn 2025/26. |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 310 | Derbyniwyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gydag amodau i'w defnyddio o fewn y flwyddyn ariannol benodol. Cytunwyd byddai tanwariant o'r dyraniad cyllid gwreiddiol yn cael ei gario ymlaen am flwyddyn arall ac, felly, ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli. |
| Seilwaith Ymwelwyr | 438 | £193k o'r tanwariant yw'r gyllideb wreiddiol a gyllidwyd gan y Cyngor, a gofynnir i'w lithro oherwydd derbyniwyd grant SPF yn y flwyddyn a oedd yn talu am y gwariant ar y prosiectau hyn. Defnyddiwyd y cyllid SPF yn llawn yn erbyn y prosiectau hyn, fodd bynnag, cafodd yr hyn a gyllidwyd yn wreiddiol i fod yn wariant cyfalaf ei symud i refeniw a'i gyllido o fewn refeniw. Ni chollwyd unrhyw gyllid. |
| | **10,913** | |
| Prosiectau Eraill | 2,608 | |
| **Cyfanswm Tanwariant 2024/25** | **13,521** | |

## 4. EFFAITH AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR

**4.1.** Mae gwariant cyfalaf y Cyngor a'r modd y caiff ei gyllido yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn gysylltiedig â'r isod:-

- Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) - sef anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor, h.y. gwariant cyfalaf sydd heb ei gyllido drwy grantiau, cyfraniadau refeniw neu gronfeydd wrth gefn;
- Lefel y benthyca;
- Y cydbwysedd rhwng benthyca allanol a benthyca sydd wedi'i gyllido gan falansau arian parod y Cyngor (benthyca mewnol);
- Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau'r Cyngor.

### 4.2. Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca'n ddarbodus yn y tymor canolig ac at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw.

**Tabl 4**
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyca Allanol**

| | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)** | | | |
| Balans Agoriadol | 145,754 | 145,754 | - |
| Gwariant Cyfalaf | 78,247 | 64,726 | (13,521) |
| Asedau Hawl Defnydd (prydlesau) wedi'i ddwyn ymlaen i'r Fantolen | 0 | 1,715 | 1,715 |
| Cyllido drwy Grantiau, Balansau a Refeniw | (66,325) | (57,873) | 8,452 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) | (1,743) | (1,710) | 33 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) – Asedau Hawl Defnydd | 0 | (327) | (327) |
| **Balans Cau** | **155,933** | **152,285** | **(3,648)** |

### 4.3. Ad-dalu Dyledion

Yn ystod 2024/25, gwnaed ad-daliadau blynyddol ar fenthyciadau blwydd-dal BBGC gwerth £18k a benthyciadau Salix di-log gwerth £364k. Yn ogystal â hyn, cafodd dau fenthyciad BBGC tymor penodol eu had-dalu, sef:-

- £569,200, benthyciad a ddechreuodd ar 18 Hydref 1983 ar gyfradd o 7.875%
- £284,600, benthyciad a ddechreuodd ar 4 Mai 1995 ar gyfradd o 8.5%

Ni chafodd y benthyciadau hyn eu disodli gan unrhyw fenthyciadau allanol newydd.

## 4.4. Benthyca Mewnol ac Allanol

Pan fo balansau arian parod yn ddigonol a phan fo cyfraddau buddsoddi'n is na chost benthyciadau tymor hir, mae'r Cyngor wedi dilyn polisi o fenthyca mewnol, drwy ddefnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf neu i gyllido ad-dalu benthyciadau, yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol. Mae'r polisi'n sicrhau cymaint o arbedion â phosibl. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r benthyciadau allanol sy'n ddyledus. Mae hyn wedi'i grynhoi yn Nhabl 5 isod: -

**Tabl 5**
**Benthyca Mewnol ac Allanol**

| | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Benthyca Allanol** | | | |
| Balans Agoriadol | 122,411 | 122,411 | 0 |
| Benthyciadau Newydd | 11,922 | 908 | (11,014) |
| Ad-dalu Benthyciadau | (1,236) | (1,236) | 0 |
| **Balans Cau** | **133,097** | **122,083** | **(11,014)** |
| Ceir dadansoddiad o'r benthyciadau dyledus fesul blwyddyn ad-dalu, fesul balans dyledus y flwyddyn, fesul math o fenthyciad a fesul cronfa yn Atodiadau 1 i 4. | | | |
| **Benthyca Mewnol** | | | |
| Balans Agoriadol | 23,343 | 23,343 | 0 |
| Benthyca Newydd i Ddisodli Benthyca Mewnol | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca Newydd i Gyllido Ad-daliadau Benthyciadau | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca Newydd i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 0 | 5,945 | 5,945 |
| Ad-daliadau Benthyciadau yn ystod y Flwyddyn | 1,236 | 1,236 | 0 |
| Asedau Hawl Defnydd (prydlesau) wedi'i ddwyn ymlaen i'r Fantolen | 0 | 1,715 | 1,715 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) | (1,743) | (1,710) | 33 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) – Asedau Hawl Defnydd | 0 | (327) | (327) |
| **Balans Terfynol** | **22,836** | **30,202** | **7,366** |

**4.5.** Mae cyfnod aeddfedu a chyfradd gyfartalog benthyciadau presennol wedi'u nodi yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog a Chyfradd Llog Cyfartalog Benthyciadau Dyledus**

| | 31 Mawrth 2025 | | 31 Mawrth 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog | Cyfradd Llog Cyfartalog | Cyfnod Aeddfedu Cyfartalog | Cyfradd Llog Cyfartalog |
| BBGC Aeddfedu | 19.21 Mlynedd | 5.1% | 19.33 Mlynedd | 5.2% |
| BBGC Blwydd-dal | 5.37 Mlynedd | 9.4% | 6.37 Mlynedd | 9.4% |
| Salix | 5.50 Mlynedd | 0.0% | 5.57 Mlynedd | 0.0% |

## 5. BUDDSODDIADAU

**5.1.** Wrth i falansau arian parod gael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf, mae'r symiau sydd ar gael i'w buddsoddi yn lleihau dros gyfnod o amser. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd gan y Cyngor £15m mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, £16.4m mewn cyfrifon galw a £0.27m mewn cyfrifon cyfredol, sef buddsoddiadau arian parod gwerth cyfanswm o £31.67m.

**5.2.** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gwerth y buddsoddiadau arian parod wedi gostwng i £13.174m, £7m mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, £5.96m mewn cyfrifon galw a £0.214m mewn cyfrifon cyfredol.

**5.3.** Ceir dadansoddiad o'r buddsoddiadau fesul chwarter a fesul gwrthbarti yn Atodiad 5 a 6.

**5.4.** Ar gyfartaledd, cafodd £14.589m ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau tymor sefydlog yn ystod 2024/25, gyda chyfradd elw cyfartalog o 5.05%. Mewn cymhariaeth, yn 2023/24, cafodd £15m ei fuddsoddi ar gyfartaledd gyda chyfradd elw cyfartalog o 5.18%.

**5.5.** Yn 2024/25, cafodd £22.175m ei gadw mewn cyfrifon galw ar gyfartaledd, gyda chyfradd elw cyfartalog o 3.88%. Mewn cymhariaeth, £16.602m oedd y balans cyfartalog yn 2023/24, gyda chyfradd elw cyfartalog o 4.11%.

**5.6.** Fe wnaeth y buddsoddiadau mewn buddsoddiadau tymor sefydlog, cyfrifon galw a chyfrifon cyfredol gynhyrchu £1.55m o log. Ar ôl trosglwyddo llog i ddeiliaid bondiau a mân ymddiriedolaethau, cynhyrchodd y buddsoddiadau £866k o log ar gyfer y gronfa gyffredinol, o'i gymharu â chyllideb o £670k, £382k ar gyfer y CRT, o'i gymharu â chyllideb o £400k, a £212k ar gyfer ysgolion.

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â'R STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

**6.1.** Cafodd y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2024 ac mae'n nodi nifer o egwyddorion. Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn yr egwyddorion hyn wedi'i nodi isod.

### 6.2. Strategaeth Fenthyca (Paragraff 8.1 ac 8.2 yn Natganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2024/25)

Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddefnyddio arian parod wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol) ac mae'n mynd allan i fenthyca dim ond pan fo balansau arian parod yn rhy isel, pan fo cynnydd cyflym mewn cyfraddau llog yn cael ei ragweld ar adeg y benthyciad, neu pan fo'r cyfraddau benthyca'n is na'r cyfraddau llog.

Yn ystod 2024/25, derbyniwyd benthyciad terfynol o £908k, cytunwyd yn flaenorol gan Salix. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol eraill, a glynwyd wrth y polisi o ddefnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn gostwng yn ystod 2025/26 a 2026/27 ac, felly, mae'n well aros cyhyd ag y bo modd cyn cymryd unrhyw fenthyciadau allanol.

### 6.3. Benthyca Cyn Bod Angen (Paragraff 8.3 yn DSRhT 2024/25)

Mae'r strategaeth yn glir na fydd y Cyngor yn benthyca cyn bod angen oni bai bod hynny'n sicrhau gwerth am arian, a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn ystod 2024/25.

### 6.4. Aildrefnu Dyledion (Paragraff 8.4 yn DSRhT 2024/25)

Gellir ystyried aildrefnu dyledion dim ond os oes arian parod dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad ac os yw'r aildrefnu'n ail-gydbwyso'r portffolio ac os yw'r premiwm sy'n daladwy yn is na'r arbediad llog a wneir.

Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod 2024/25 gan nad oes unrhyw frys mawr i ail-gydbwyso'r portffolio ac mae'r gost ad-dalu cynamserol yn dal i olygu nad yw'n werth aildrefnu.

### 6.5. Gwrthbartïon Benthyca (Paragraff 8.5 yn DSRhT 2024/25)

Mae'r strategaeth yn nodi mai'r BBGC fydd yn parhau fel prif ffynhonnell fenthyca'r Cyngor, ond y gellir ystyried benthyca gan sefydliad eraill.

Yn ystod y flwyddyn, ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol.

### 6.6. Blaenoriaethau Buddsoddi (Paragraff 10.2.1 yn DSRhT ys 2024/25)

Mae'r strategaeth yn nodi y bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ei fuddsoddiadau yn ôl diogelwch, hylifedd, elw, h.y. mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad uwchlaw bob dim arall, yna'n sicrhau bod y buddsoddiad yn ei alluogi i gael gafael ar rywfaint o arian parod yn syth ac yna'n ystyried yr elw yn olaf.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr egwyddorion buddsoddi hyn yn weithredol ac roedd pob buddsoddiad yn unol â'r egwyddorion hyn.

### 6.7. Gwrthbartïon Buddsoddi (Paragraff 10.2 - 10.4 yn DSRhT 2024/25)

Mae'r strategaeth yn nodi nifer o feini prawf yn gysylltiedig â gwrthbartïon buddsoddi, yn cynnwys graddfa credyd pob sefydliad, yr uchafswm y gellir ei fuddsoddi gydag un sefydliad, hyd y buddsoddiadau a'r gwledydd cymeradwy.

Yn ystod y flwyddyn, glynwyd wrth bob un o'r meini prawf yma.

## 7. DANGOSYDDION DARBODUS

**7.1.** Yn ogystal â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi uchod, mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys nifer o ddangosyddion darbodus a therfynau awdurdodedig. Pwrpas y dangosyddion hyn yw rheoli gwariant cyfalaf a faint sy'n rhaid ei fenthyg i gyllido'r gwariant hwn a mesur pa mor fforddiadwy yw'r costau refeniw'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciad. Mae Tabl 7 isod yn nodi'r perfformiad gwirioneddol ar gyfer 2024/25, o'i gymharu â'r amcangyfrif yn y strategaeth wreiddiol:-

**Tabl 7**
**Dangosyddion Darbodus 2024/25**

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Dangosyddion** | **Disgrifiad** | **Datganiad Strategaeth rheoli'r Trysorlys 2024/25** | **Sefyllfa Amcangyfrifiedig ar ddiwedd Ch 4** | |
| Fforddiadwyaeth | Cymhareb costau cyllido i ffrwd refeniw net – Cronfa Gyffredinol | 3.12% | 2.62% | |
| | Cymhareb costau cyllido i ffrwd refeniw net – Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 10.38% | 5.43% | |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | Cronfa'r Cyngor a CRT | £171.991m | £152.285m | |
| **TERFYNAU AWDURDODEDIG** | | | | |
| Doethineb | Rhaid i'r ddyled gros fod yn llai na'r GCC ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yn y ddwy flynedd nesa | <£198.521m | £122.082m | |
| Dyled Allanol | Terfyn Awdurdodedig | <£198.521m | £122.082m | |
| | Ffin Weithredol | <£193.521m | £122.082m | |
| Aeddfedrwydd Dyled | Llai na 12 mis | <20% o gyfanswm y ddyled = £24.235m | £0.046m | 0.04% |
| | 12 mis ac o fewn 24 mis | <20% o gyfanswm y ddyled = £24.235m | £1.427m | 1.18% |
| | 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | <50% o gyfanswm y ddyled = £60.587m | £5.813m | 4.80% |
| | 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | <75% o gyfanswm y ddyled = £84.822m | £13.851 | 11.35% |
| | 10 mlynedd ac uwch | 100% = £121.175m | £122.082m | 100.00% |

**7.2.** Mae'r tabl uchod yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r holl ddangosyddion a therfynau awdurdodedig sydd wedi'u nodi yn y strategaeth.

## 8. 2025/26 A THU HWNT

**8.1.** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2025/26 (a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2025) yn nodi'r rhagolygon a'r strategaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**8.2.** Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, rhagwelir y bydd balansau arian parod y Cyngor yn gostwng ac y bydd yn rhaid iddo ddychwelyd y £10m y mae wedi'i fuddsoddi mewn buddsoddiadau tymor sefydlog i'w falansau arian parod hylif wrth i'r buddsoddiadau hynny aeddfedu yn ystod yr haf fel bod ganddo ddigon o falansau arian parod tan Hydref 2025. Ar yr adeg honno, bydd rhaid i ran o'r benthyciadau mewnol cyfredol gael eu hallanoli a bydd rhaid cymryd benthyciadau pellach tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd rhaid benthyg cyfanswm o £20m i gynnal balansau arian parod hylif digonol yn ystod 2025/26.

**8.3.** Ac eithrio benthyciadau blwydd-dal a benthyciadau Salix, nid oes unrhyw fenthyciadau tymor sefydlog yn ddyledus yn 2025/26. Mae 2 fenthyciad, gwerth cyfanswm o £1.381m, yn ddyledus yn 2026/27, ac mae 3 benthyciad pellach, gwerth cyfanswm o £2.165m, yn ddyledus yn 2027/28.

**8.4.** Disgwylir i Gyfradd Sylfaenol Banc Lloegr barhau i ostwng yn ystod 2025/26, cyn sefydlogi i tua 3% ganol 2026.


## 9. CASGLIADAU

**9.1.** Roedd perfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel, enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau taliadau llog cymaint â phosib.

**9.2.** Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.


**9.3.** Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**ATODIAD 1**



Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 31 Mawrth 2025 fesul Blwyddyn Ad-Dalu
Total Loans Outstanding as at 31 March 2025 By Repayment Year
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£30,000,000
£25,000,000
£20,000,000
£15,000,000
£10,000,000
£5,000,000
£0
2024/2025
2025/2026
2026/2027
2027/2028
2028/2029
2029/2030
2030/2031
2031/2032
2032/2033
2033/2034
2034/2035
2035/2036
2036/2037
2037/2038
2038/2039
2039/2040
2040/2041
2042/2043
2043/2044
2044/2045
2045/2046
2050/2051
2052/2053
2054/2055
2055/2056
2056/2057
2057/2058
2059/2060
2064/2065
2066/2067
2068/2069

**ATODIAD 2**


## Balans Benthyciadau Dyledus ar 31 Mawrth 2025



**ATODIAD 3**





**ATODIAD 4**




Cyfanswm Benthyciadau yn Ddyledus ar 31 Mawrth 2025 Fesul Gronfa
Total Loan Outstanding as as 31 March 2025 By Fund
Swm Ddyledus / Outstanding Amount £
£120,000,000
£100,000,000
£80,000,000
£60,000,000
£40,000,000
£20,000,000
£0
21,168,714.00
4,392,618.42
96,521,012.24
Prynu Allan CRT / HRA Buy Out
Gronfa Cyffredinol / General Fund
Ar y Cyd CC a CRT / Joint GF and HRA

**ATODIAD 5**



Gwerth Buddsoddiadau 2024/25 fesul Fath o Fuddsoddiad ar Diwedd Pob Chwarter 2024/25
Value of 2024/25 Investments By Investment Type at End of Each Quarter
Gwerth Buddsoddiad / Value of Investment
£25,000,000
£20,000,000
£15,000,000
£10,000,000
£5,000,000
£0
Sum of 31/03/2024
Sum of 30/06/2024
Sum of 30/09/2024
Sum of 31/12/2024
Sum of 31/03/2025
Math o Fuddsoddiad / Investment Type
Cyfrif Galw / Call Account
Buddsoddiad Banc Sefydlog Tymor Byr / Short Term Fixed Bank Investment
Cyfrif Cyfredol / Current Account

**ATODIAD 6**



Gwerth Buddsoddiad fesul Banc fesul Chwarter 2024/25
Value of Investment per Bank per Quarter for 2024/25
Gwerth Buddsoddiad / Value of Investment
£30,000,000
£25,000,000
£20,000,000
£15,000,000
£10,000,000
£5,000,000
£0
Bank of Scotland
Goldman Sachs
Lloyds
Nat West
Nationwide
Royal Bank of Scotland
Santander
Banc / Bank
Sum of 31/03/2024
Sum of 30/06/2024
Sum of 30/09/2024
Sum of 31/12/2024
Sum of 31/03/2025